



Hoci am Oes – fframwaith integredig, holistaidd a hydredol i bawb

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Fel rhan o uchelgeisiau tymor hir eu 'gweledigaeth 2020', ac ar ôl adolygiad helaeth o'r strategaeth a'r strwythurau perfformio, penododd Hoci Cymru y Sports Science and Training Group Cyf. (SSTG) i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r llwybr hoci presennol yng Nghymru. Defnyddiodd fethodoleg yr arolwg ar-lein (a gwblhawyd gan 86 o gyfranogwyr) a 3 grŵp ffocws (un yn Ne Cymru, dau yng Ngogledd Cymru yn cynnwys 9 o gyfranogwyr) er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys. Roedd ymchwil desg i ddulliau a ddefnyddiwyd mewn chwaraeon eraill, ac archwiliad trwyadl o lenyddiaeth ymchwil berthnasol, yn rhan ganolog o'r adolygiad hefyd.

Roedd yr amcanion penodol fel a ganlyn:

- Adolygu strwythur y llwybr presennol a'r prosesau cysylltiedig.
- Asesu barn y cyfranogwyr am y llwybr perfformio presennol a'r prosesau cysylltiedig, a'u profiadau ohonynt.
- Mesur amcanion dymunol fframwaith Hoci Cymru (o sawl persbectif).
- Integreiddio'r wybodaeth hon gyda darganfyddiadau empirig a damcaniaethol er mwyn llunio cynnig fframwaith cynhwysfawr.
- Cynllunio a diffinio fframwaith a all fodloni'r amcanion dymunol.
- Datgan unrhyw ddiffygion yn y llwybr presennol a thynnu sylw at unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- Ar y cyd â'r grŵp rheoli fframwaith, cynnig cynllun manwl ar gyfer gweithredu'r fframwaith newydd fesul cam.

Ar ôl cwblhau'r prosiect, llwyddodd SSTG i dynnu sylw at gryfderau a gwendidau'r dull presennol o weithredu, gan ddatgan sut mae'r rhain yn berthnasol i argymhellion y llenyddiaeth a dangos yn glir y profiadau a gynigir gan y llwybr presennol i lawer sy'n rhan ohono.

Yn seiliedig ar y gwaith hwn, mae fframwaith 'Hoci am Oes' wedi cael ei sefydlu er mwyn galluogi i gyfranogwyr (chwaraewyr, hyfforddwyr, swyddogion, dyfarnwyr, gwirfoddolwyr, addysgwyr a gweinyddwyr) weithio gyda'r gamp a helpu Hoci yng Nghymru i ehangu a rhagori. Fel rhan o'r fframwaith hwn, cynigir model llwybr manwl er mwyn dangos llwybr clir ar gyfer cymryd rhan yn y gamp (a datblygu drwyddi).

Cyd-destun

Mae llwybr chwaraewyr presennol Hoci Cymru yn strwythur pyramid traddodiadol, a arweinir gan gystadlu ac adnabod talent (mae adnabod talent (AT) yn rhoi pwyslais ar fesur a rhagweld perfformiad dros gyfnodau penodol o amser). Mae'r llwybr yn adeiladu o lefel ysgol a/neu glwb i gyflwyno ar lefel sirol, drwodd i gyflwyno rhanbarthol ac yna camau iau neu hŷn rhyngwladol. Mae cael eich dewis gan ddefnyddio'r fformat hwn yn dibynnu ar 'asesiadau cipolwg' perthnasol i grwpiau oedran ac amserlenni trefniadaethol. O dan yr amgylchiadau hyn, dim ond os ydynt yn dangos gallu ar amseroedd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw fel rhan o'r rhaglen y gallant fwrw ymlaen.

Fel rhan o'r strwythur presennol, gweithredir system ddeuol ddiangen, gan adlewyrchu methiant i gyfuno'n effeithiol y llwybrau hanesyddol (sirol) a rhannau o ddull gweithredu 'system sengl' Lloegr. Sefydlwyd yr olaf ar gyfer amgylchedd gwahanol iawn i Gymru ac felly arweiniodd yr ymdrechion i'w hefelychu at gynyddu'r her yn y llwybr, ac at lwybrau a darpariaeth anghyson ar gyfer chwaraewyr (o ran rhyw a daearyddiaeth). Hefyd, rhoddodd ormod o faich ar adnoddau, fel y gweithlu o hyfforddwyr a gwirfoddolwyr.

Yn yr un modd, mae strwythurau perfformiad elitaidd/rhyngwladol y llwybr hoci wedi cael anawsterau gyda chyflawni eu hamcanion gwrthrychol. Bu i ganlyniadau adolygiad annibynnol dynnu sylw at nifer o bryderon mewn perthynas â gallu'r system i gynhyrchu timau rhyngwladol sy'n

perfformio'n dda, neu athletwyr sy'n gallu perfformio ar lefel PF. Mae'r asesiad, a gynhaliwyd gan Wharton Consulting yn 2010, wedi tynnu sylw at ddiffygion a ddangosir gan y canlyniadau canlynol:

- Cyflenwad afreolaidd o chwaraewyr o safon i sgwadiau Prydain Fawr, gyda dim ond 3 unigolyn yn y pump cylch Olympaidd diwethaf.
- Perfformiadau cyson wael gan Gymru ar lefel y byd, ac anghysondeb o ran cymhwyso ar gyfer Gemau'r Gymanwlad.
- Safleoedd yn y byd yn hofran tua 27.
- Perfformiadau Ewropeaidd tua chanol y tabl.

Cyflwynwyd sawl argymhelliad yn yr adroddiad, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfeirio adnoddau at feysydd ble gall y sefydliad gael yr effaith a'r rheolaeth fwyaf
- Rhoi ffocws ar ddatblygu talent
- Perffeithio'r dull o reoli athletwyr addawol drwy weithredu'n holistaidd a hydredol

Cafwyd cyfeiriadau pendant yn y darganfyddiadau yn adroddiad Wharton a chawsant eu hystyried drwy gydol yr adolygiad presennol ochr yn ochr ag edrych ar yr agweddau datblygiadol ehangach.

Adolygiad o llenyddiaeth

Yn ychwanegol at gasglu barn y rhanddeiliaid allweddol, ac integreiddio darganfyddiadau'r adolygiad o berfformiad, cynhaliwyd hefyd adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth ymchwil. Fel rhan o'r adolygiad helaeth, gwerthuswyd pedwar dull damcaniaethol ac allweddol o weithredu mewn perthynas â datblygu talent ac adnabod talent (Balyi, 1996; Cote, 1999; Abbott a Collins, 2004 a Bailey a Morley, 2004) ar y cyd ag adolygiad academaidd perthnasol Sports Coach UK (Bailey, Collins, Ford, MacNamara, Toms a Pearce, 2010).

Mae'r gwaith ymchwil yn y maes hwn yn codi llawer iawn o gwestiynau am amlygrwydd systemau Adnabod Talent (AT) yn hytrach na systemau Datblygu Talent (DT) ledled y sefydliadau chwaraeon (fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r system 'pyramid' draddodiadol a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru yn esiampl o ddull AT o weithredu). Mae'r llenyddiaeth yn gyson feirniadol o ddulliau AT o weithredu a'r dulliau 'cipolwg' (yn hytrach na hydredol) gofynnol o ddewis sy'n tueddu i gyd-fynd â hwy. Tynnir sylw at ystod o wendidau penodol cysylltiedig â dulliau AT o weithredu yn y llenyddiaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- *Nid yw talent gynnar yn arwain o angenrheidrwydd at dalent yn nes ymlaen* – ni cheir llawer o dystiolaeth anecdotaidd nac empirig i gefnogi'r rhagdybiaeth y bydd yr athletwyr hynny sy'n dangos talent gynnar yn symud ymlaen i fod yn athletwyr llwyddiannus ar lefel hŷn. Fel sawl llwybr arall, mae llwybr Hoci Cymru yn dibynnu ar asesiadau cipolwg o berfformwyr ifanc. Nod yr asesiadau hyn yw penderfynu ar y buddsoddiad yn y rhai hynny sy'n dangos arwyddion cynnar o dalent.
- *Nid yw AT yn dadansoddi pob ffactor sy'n rhan o berfformiad* – mae sawl agwedd i berfformiad ond eto mae'r modelau AT presennol yn tueddu i asesu dim ond cyfran fechan o'r ffactorau perthnasol. Ceir tueddiad i werthuso perfformwyr ar sail ystod gymharol fechan o nodweddion, gan fethu cydnabod y 'pinaclau a'r isafbwyntiau' y mae athletwyr yn eu hwynebu weithiau (gwella mewn rhai agweddau ond aros yr un fath am gyfnod mewn agweddau eraill).
- *Nid yw datblygiad chwaraewr yn broses linellol* – ond eto nid yw'r model presennol a ddefnyddir ledled Cymru ac sy'n troi o amgylch AT yn caniatáu ar gyfer cynnwys yn rhwydd yr athletwyr a all gyrraedd pinacl yn hwyrach ymlaen, neu brofi dirywiad dros dro yn eu perfformiad. Nid yw'r system bresennol yn cydnabod y dylai chwaraewyr roi'r gorau iddi am

gyfnod efallai, ac ailymuno yn nes ymlaen, ac ychydig iawn o gyfleoedd sydd i athletwyr ymuno â'r broses yn hwyr, neu drosglwyddo o chwaraeon eraill.

- *Effaith Oedran Cymharol* – mae ymchwil hefyd yn dangos bod grwpio ac asesu athletwyr mewn grwpiau sydd wedi'u diffinio'n bendant gan oedran yn gallu cyfyngu ar gyfleoedd datblygu llawer o berfformwyr elitaidd posibl. Mae hyn yn caniatáu i dimau grwpiau oedran gael eu rheoli gan athletwyr sydd wedi'u geni'n gynnar yn y flwyddyn ddewis, gan ddiystyru o bosib dalent yr athletwyr sy'n datblygu i botensial eu hoedran fisoedd ar ôl y dyddiadau dewis.

Mae'r llenyddiaeth yn argymhell ffocws ar Ddatblygu Talent (DT) (a ddiffinnir fel "darparu i athletwyr amgylchedd dysgu addas fel bod modd gwireddu talent" Williams a Reilly, 2000) yn hytrach na dulliau Adnabod Talent. Bydd DT yn ymgorffori cyfleoedd am 'ymarfer dyfnach', a all arwain at fanteision arwyddocaol wrth ddatblygu sgiliau athletwyr. Hefyd, byddai strwythurau DT yn caniatáu ffocws holistaidd a hydredol ar ddatblygu chwaraewyr, fel yr argymhellir yn Adolygiad Perfformiad Wharton. Mae'r ffocws yn cynnwys pob maes yn natblygiad y chwaraewr, gan gefnogi'r ochr dechnegol a thactegol hefyd, fel cyflwr corfforol, seicoleg chwaraeon a ffordd o fyw dros gyfnod o amser, sy'n galluogi i dalent ddatblygu.

Darganfyddiadau'r Adolygiad

Drwy gymryd rhan mewn arolygon ar-lein neu sesiynau grwpiau ffocws, rhannodd cyfranogwyr y gymuned hoci eu dealltwriaeth a'u profiadau o'r llwybr presennol yng Nghymru. Roedd un o'r darganfyddiadau allweddol yn dangos amcan dymunol cyson ar gyfer y llwybr – sef datblygu perfformiad rhyngwladol ar lefel hŷn. Efallai bydd Hoci Cymru yn elwa o bwysleisio hyn wrth gyfathrebu unrhyw addasiadau i'r model presennol a all wasanaethu'r amcan cyffredin yn well. Mae'r cyfranogwyr yn gweld nifer o gryfderau presennol, gan gynnwys: cyfleoedd datblygu, hyfforddi da mewn academiâu rhanbarthol, adnabod a datblygu chwaraewyr talentog a darparu llwybr i sgwadiau rhyngwladol. Hefyd tynnodd yr ymatebwyr sylw at y diffygion, fel: agweddau ar faich gweinyddol y llwybr i CRhC, ysgolion a gwirfoddolwyr – nid yw hynny'n syndod o ystyried y system ddeuol sydd ar waith mewn rhai rhanbarthau. Mae baich gwaith y gwirfoddolwyr allweddol yn fater dylanwadol hefyd a theimlir ei fod wedi cyrraedd ei ben draw; fel enghraifft o hyn – o blith y 95 o ymatebwyr, roedd 52% o'r gwirfoddolwyr allweddol yn cyflawni tair rôl neu fwy yn y strwythur llwybr presennol. Dywedwyd mai adnoddau, strwythur a gweinyddu oedd y prif wendidau fel rhan o'r llwybr presennol ac felly dylent fod yn feysydd ffocws allweddol wrth edrych ar ailddatblygu'r fframwaith.

Un o'r pryderon allweddol y tynnwyd sylw ato yn yr adolygiad oedd diffyg dealltwriaeth o'r llwybr presennol yn ei gyfanrwydd. Tynnodd hyn sylw at y ffaith nad oes dealltwriaeth dda o'r system bresennol ond hefyd mae'n dangos bod angen cyfathrebu'r llwybr newydd yn glir ac yn gydlynol i'r holl aelodau hoci.

Fframwaith Hoci am Oes

Amcanion, crynodeb o'r model, unrhyw bryderon/ystyriaethau (rhybuddion)

Ar ôl ystyried yr adolygiad perfformiad yn helaeth, a'r llenyddiaeth ymchwil a safbwynt cyfranogwyr y llwybr, cynigiodd SSTG fframwaith newydd manwl i gymryd ei le. Mae hwn yn cynnig athroniaeth, strwythur a gweledigaeth tymor hir gydlynol ar gyfer cyfranogiad hoci ar bob lefel. Mae'r fframwaith holistaidd hwn yn dangos sut gall pawb gymryd rhan mewn hoci, gan gynnwys chwaraewyr, hyfforddwyr, swyddogion, dyfarnwyr, gwirfoddolwyr, addysgwyr a gweinyddwyr.


Dynododd y mewnbwn gan y gymuned hoci bresennol yng Nghymru bod rhaid i unrhyw fframwaith newydd leihau'r baich ar adnoddau, gan gynnwys y gweithlu, a chyfathrebu neges glir ynghylch yr amcanion a'r dull o weithredu, gan sicrhau cysondeb o ran cyflwyno, cynnwys a safonau.

Fel gydag unrhyw fframwaith, mae'n rhaid i'r cynllun gyd-fynd yn agos ag amcanion cyffredinol y sefydliad ac, yn seiliedig ar yr holl wybodaeth ymlaen llaw yn y papur hwn, mae'r amcanion a awgrymir wedi'u nodi isod:

1. Creu fframwaith holistaidd ar gyfer pawb (chwaraewyr, hyfforddwyr, swyddogion, dyfarnwyr, gwirfoddolwyr, addysgwyr a gweinyddwyr) er mwyn cynnwys, ehangu a rhagori mewn hoci, un system i bawb.
2. Sefydlu a hybu 'Ffordd Gymreig' benodol o chwarae a chyflwyno hoci, gan ddarparu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer chwaraewyr, staff a rhieni a sicrhau gwell cysondeb wrth gyflwyno.
3. Creu system y mae'r chwaraewyr yn ganolog iddi, system a sbardunir gan ddatblygiad ac a gefnogir gan gystadleuaeth, system sydd wedi'i chynllunio fel bod talent yn gallu ffynnu. Rhoi blaenoriaeth i Ddatblygu Talent (DT) yn hytrach nag Adnabod Talent (AT) gan ddatblygu sylfeini elfennau technegol, tactegol a bio-seicogymdeithasol y perfformiad yn seiliedig ar allu ac nid oedran, gan adlewyrchu natur ddeinamig datblygiad y chwaraewr.
4. Darparu fframwaith datblygu hydredol ar gyfer talent cartref a rhyngwladol.

Ceir dau fodel manwl sy'n sail i gyflawni nodau'r fframwaith (1-4).

Yn allweddol, ni all llwybr i chwaraewyr weithredu'n llwyddiannus heb ei integreiddio'n rhan o gyd-destun ehangach gweithrediadau'r corff rheoli a fframwaith cyffredinol. Mae model y fframwaith hoci am oes yn darparu'r strwythur cyffredinol hwn, gan ddangos rôl yr holl bartneriaid hoci wrth gyflwyno hoci yn llwyddiannus. Ar ben hynny, mae'r fframwaith yn dangos pwysigrwydd sylfaenol y gwaith o ddatblygu partneriaethau effeithiol er mwyn sicrhau bod ystod o weithgareddau hoci'n cael eu darparu. Yn allweddol, mae'r model fframwaith hefyd yn dangos nifer y cysylltiadau a'r partneriaethau cryf sydd eu hangen ledled y sector er mwyn cyflawni uchelgais Gweledigaeth 2020.



Figur 1 – Model y Fframwaith Hoci am Oes

Mae'r model yn cydnabod bod sawl sbardun yn arwain at ymwneud yn unigol â hoci, a'r ffaith bod pob agwedd ar y gêm yn bwysig er mwyn datblygu hoci i bawb.


Yn y byd hoci ceir pobl sy'n cymryd rhan er mwyn eu lles, sy'n golygu cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol er mwyn diwallu anghenion gwahanol i gynnydd (amgylchedd cymdeithasol, anffurfiol, clwb, ysgolion ac Addysg Bellach/Addysg Uwch). Bydd eraill yn cyflawni 'Rhagoriaeth

Cyfeiriol Personol’ a brofir ar ffurf cyfranogiad a rhagoriaeth personol i chi eich hun (amgylchedd clwb, dan do a hoci cymysg). Yn olaf, bydd rhai yn ymwneud â’r gamp ar gyfer Rhagoriaeth Cyfeiriol Elitaidd (RhCE), sef perfformiad chwaraeon ar lefel uchel ble mae’r cyflawniadau’n cael eu mesur yn allanol gyda’r bwriad o ennill ar y lefel uchaf bosib (Canolfannau Hoci 360^o, Clybiau Perfformio, Timau Rhyngwladol, Aspire^{GB} a Phrydain Fawr).

Mae model llwybr effeithiol yn darparu cyfleoedd i’r rhain gael eu datblygu’n annibynnol neu ochr yn ochr. Bydd model y fframwaith hoci am oes yn galluogi i gyfranogwyr symud yn rhydd drwy gontiniwm cysylltiedig â’u hoedran, gallu, amgylchiadau cymdeithasol neu ddewis penodol. Mae’r dull holistaidd hwn o weithredu’n awgrymu nad yw buddsoddi cyllid mewn pŵl bychan o dalent ‘ymddangosiadol’ yn ateb delfrydol efallai ar gyfer datblygiad elitaidd. Yn hytrach, bydd dull ehangach o weithredu’n gwella safonau chwaraewyr, swyddogion a gweithluoedd drwy bob lefel gallu ac yn rhoi i bawb yn y gamp y gallu a’r medrusrwydd i ddewis bod yn egniol yn gorfforol, cyflawni RhCC neu, os yw eu gallu a’u cymhelliant yn caniatáu hynny, anelu at RhCE.

Yr argymhelliad yw bod Hoci Cymru yn defnyddio’r model hwn ochr yn ochr â’r llwybr hydredol ar gyfer chwaraewyr, er mwyn datblygu cynllun gweithredu cadarn a realistig.

Yr ail fodel yw llwybr y chwaraewr (ffigur 2) sy’n cynnig dull hydredol o weithredu gan roi lle canolog i’r chwaraewr. Mae hwn yn amlinellu’r llwybr ar gyfer chwaraewyr a’r gweithlu ar bob lefel yng Nghymru. Mae hwn yn well fframwaith, sy’n darparu cyfleoedd dro ar ôl tro i gael eu dewis ar hyd y daith, a bydd yn lleihau nifer y chwaraewyr (rhaid gyda thalent bosib) sy’n gorfod gadael y system yn y camau amrywiol. O ystyried y cyfyngiadau o ran nifer y chwaraewyr yng Nghymru, nid yw’r pŵl o chwaraewyr ar waelod y ‘pyramid’ yn ddigon mawr i wrthsefyll dad-ddewis chwaraewyr yn gyson a pharhau i gynnal pŵl digon eang o dalent i ymdopi ag effaith ffactorau fel rhagfarn cymdeithasol, daearyddol, oedran neu lwc.



Ffigur 2 – Model llwybr chwaraewr hydredol

Os yw’r adnoddau (gweinyddu, hyfforddwyr, cyfleusterau, chwaraewyr, rhieni, ariannol) yn caniatáu, byddai strwythur mwy hydredol o fantais i wneud iawn am y rhwystrau (fel uchod), sy’n gallu

dylanwadu ar berfformiad yn y camau amrywiol (cyfle, datblygu'n hwyr, dyddiadau geni hwyrach a rhwystrau a ffactorau bio seicogymdeithasol amrywiol) a chaniatáu gwell datblygiad a dulliau adnabod talent mwy effeithlon.

Haen 1

Mae sylfaen y model yn dibynnu ar gysylltiadau â'r sector addysg (cynradd, uwchradd, Addysg Bellach ac Addysg Uwch) a chlybiau, oherwydd daw'r asiantaethau hyn yn asiantau cyflwyno allweddol ar gyfer dechreuwyr, chwaraewyr hamdden a pherfformwyr hoci sy'n datblygu.

Haen 2

Byddai'r haen nesaf mewn cyflwyno hoci'n cael ei chynnal mewn Canolfannau Hoci 360⁰, a fyddai'n cymryd lle'r Canolfannau Datblygu Perfformiad a'r Academiâu Rhanbarthol presennol. Yr argymhelliad yw bod chwaraewyr yn cael eu hyfforddi mewn grwpiau gallu rhyw cymysg, homogenaidd. Er mwyn gwneud hyn, bydd dau sesiwn bloc oedran cyffredinol, d.15 a d.18. Ym mhob bloc oedran, bydd y chwaraewyr yn cael eu gosod mewn un o dri grŵp, yn seiliedig ar lefel bresennol eu gallu. Bydd y chwaraewyr a'r hyfforddwyr yn gallu symud yn hyblyg rhwng y tair lefel, yn seiliedig ar eu perfformiadau dros gyfnod o amser. Prif swyddogaeth y Canolfannau Hoci 360⁰ yw cyflwyno a datblygu perfformiad craidd (yr 'arfer dwfn' y cyfeiriwyd ato'n gynharach) yn hytrach na pharatoi chwaraewyr ar gyfer cystadlu neu gael eu dewis.

Yr argymhelliad yw cynnal y Canolfannau Hoci 360⁰ ar ddyddiau Sul a datblygu calendr blaenoriaeth i helpu clybiau ac ysgolion i weithio fel rhan o'r fframwaith. Gall cyflwyno ar ddydd Sul leddfu peth o'r pwysau (a amlinellwyd uchod) sy'n berthnasol i gyflwyno yn ystod yr wythnos. Hefyd, gall yr addasiad hwn greu swyddi atyniadol i hyfforddwyr a hyfforddwyr mentor.

Haen 3

Mae'r haen hon yn cynnwys clybiau perfformio, a ddatblygir fel darn o waith yn 2012-13.

Haen 4

Dylai Lefel 6 Canolfannau Hoci 360⁰ Haen 2 gynnwys yr holl athletwyr d.18 sydd wedi'u bwriadu fel athletwyr rhyngwladol ac felly dylid cysylltu'r cyflwyno 360⁰ misol yn agos â gofynion, anghenion a disgwyliadau hoci rhyngwladol. Os gellir cyflawni hyn, yna dylai'r chwaraewyr deimlo bod y pontio i chwarae'n rhyngwladol yn llawer haws, oherwydd bydd meddylfryd chwaraewr rhyngwladol wedi'i ymgorffori eisoes. O ran datblygiad rhyngwladol fel rhan o'r llwybr hydredol arfaethedig i chwaraewyr, bydd dwy lefel oedran: d.18 a 18+. Bydd y rhaglen rhyngwladol yn mabwysiadu egwyddorion tebyg i rai'r Canolfannau Hoci 360⁰. Yn y grŵp oedran 18+, yr argymhelliad yw cael dau grŵp gallu yn y grŵp hyfforddi 18+. Gellid galw'r rhain yn Cymru A a Cymru B i fod yn glir.

Haen 5

Un o awgrymiadau allweddol adroddiad Wharton (2010) oedd: enwi'r chwaraewyr sydd â photensial i chwarae i Brydain Fawr, a gweithio gyda'r "Wlad Sydd Wedi'i Henwebu" er mwyn datblygu'r chwaraewyr hyn yn benodol. Bydd detholiad bychan o chwaraewyr eithriadol dalentog yn cael gwahoddiad i fod yn rhan o raglen Aspire^{GB}. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnwys cytundeb lefel gwasanaeth, y bydd y chwaraewyr a'r CRhC yn cadw ato.

Haen 6

Mae Gweledigaeth 2020 yn tynnu sylw at y targed ar gyfer Cymru, sef cael 2-4 athletwr ar lefel PF erbyn 2020.

Prosesau adolygu a chymeradwyo'r papur Hoci am Oes

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'r papur Hoci am Oes i Grŵp Rheoli'r Fframwaith (y 'llwybr GGT' gynt) a chafodd ei golygu ar ôl trafodaethau helaeth yn seiliedig ar ymchwil, amcanion arfaethedig ac athroniaeth y fframwaith. Cyflwynwyd yr adolygiad Hoci am Oes i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod ar 12 Ebrill 2012, ble cafodd ei gymeradwyo.

Cymeradwywyd 4 egwyddor allweddol yr adolygiad ynghyd â'r prif gynllun gweithredu, sydd fel a ganlyn:

Maes Gweithredu	Amserlen
Cyfathrebu i aelodau a rhanddeiliaid	Diwedd mis Mai ac yna'n barhaus
Adolygu Cystadlaethau	Ebrill – Hydref 2012
Gweithredu Rhaglen Aspire GB (Haen 5)	O fis Mehefin ymlaen
Gweithredu Haen 2	O fis Medi ymlaen
Gweithredu adolygiad o gystadlaethau	O fis Medi 2013 ymlaen (gyda pheth newid i gystadlaethau iau yn 2012/13, e.e. 4689/ activate)

Gweithredu

Mae'n rhaid pwysleisio mai fframwaith dyheadol yw hwn, a gall gymryd cryn amser i gael ei weithredu'n llawn. Mae iddo oblygiadau rhesymegol ac ariannol i Hoci Cymru a'i asiantau cyflwyno.

Bydd gweithredu'r llwybr yn golygu llawer iawn o waith i nifer o randdeiliaid allweddol. Fwy na thebyg, bydd yn cael ei weithredu ar ffurf camau yn ystod y 2-3 blynedd nesaf.

Mae nifer o Grwpiau Gweithredu Technegol (GGT) wedi cael cyfrifoldeb am arwain y gwaith o weithredu'r fframwaith. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Perfformiad, Hyfforddi, Gweinyddu, Haen 1 (datblygu/llawr gwlad) a Chystadlaethau, a bydd pob un o'r GGT yn adrodd yn ôl i Grŵp Gweithredu'r Fframwaith. Bydd y GGT'au Hyfforddi a Gweinyddu yn cael eu cynrychioli yn y diwedd gan GGT Gweithlu.

Mae adolygu ac ailstrwythuro helaeth mewn perthynas â'r system gystadlu bresennol yn angenrheidiol er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith hwn yn effeithiol. Bydd y prosiect adolygu cystadlaethau a'r gwelliannau cysylltiedig yn cael eu gweithredu ym mis Medi 2013.

Ystyriaethau / rhybuddion

- Yr ystyriaeth amlycaf ar gyfer cynllunio a gweithredu'r fframwaith yn y dyfodol fydd cefnogi a buddsoddi mewn gweithlu ymroddedig i Hoci Cymru. Mae'r criw hwn o arbenigwyr hoci yn gwbl ganolog i gynnydd llwyddiannus y fframwaith.

- Bydd y ffocws ar DT yn cael llawer o effaith ar y dull o gyflwyno hoci yng Nghymru gan fod y newid o AT i DT yn galw am bontio arbennig mewn termau ymarferol a chysyniadol. Bydd y newid helaeth yn yr athroniaeth o DT yn galw am fuddsoddiad arwyddocaol gan bawb. Bydd angen newid diwylliannol er mwyn datblygu amgylchedd hyfforddi effeithiol ac, fel rhan o gyflwyno'r llwybr, mae addysgu hyfforddwyr, chwaraewyr a rhieni am yr agweddau niferus ar ddatblygu a chyflwyno gyda ffocws ar athletwyr yn gwbl hanfodol.
- Fel rhan o'r broses weithredu hon, bydd yr angen am strategaeth gyfathrebu gydlynol a chyson yn dasg hanfodol i Hoci Cymru er mwyn cyflwyno'r fframwaith integredig, holistaidd a hydredol i'w lawn botensial.